

PROFFILIAU AELODAU'R BWRDD CORFFORAETHOL

David Ashelby (Hyd at Fehefin 2022)

David yw Cyn-ysgrifennydd Academaidd Prifysgol Fetropolitan Abertawe. Mae'n brofiadol iawn ym maes Addysg ac, yn y gorffennol, mae David wedi ymwneud â llawer o ddatblygiadau cenedlaethol, yn enwedig yn y sectorau ôl-16. Mae ef hefyd wedi gweithio ar ddatblygiadau mewn perthynas â llwybrau academaidd a galwedigaethol, yn ogystal â chydweithio yn sefydliadol.

Helen Bjork (Hyd at Fai 2023)

Mae Helen ar hyn o bryd yn gweithio fel tiwtor asesydd yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, ar ôl treulio cyfnod yng Ngholeg Sir Gâr. Mae hi'n meddu ar gymwysterau dysgu ac mae hi'n rhugl yn y Gymraeg. Bu'n gweithio'n flaenorol i Hyfforddiant Sir Gaerfyrddin, Canolfan Cyngor ar Bopeth a threuliodd cyfnod yn gweithio fel Hyfforddwr Cyflogaeth i A4E. Mae hi wedi gwirfoddoli gyda Chymorth i Ddiodefwyr, Tenovus Cancer Research ac fe threuliodd ugain mlynedd fel Arweinydd Ieuenctid. Mae hi'n weithgar iawn yn yr eglwys leol gyda'r banc bwyd a'r grŵp cerdd.

Mike Day (Hyd at Fedi 2020)

Mae Mike yn Gyfarwyddwr ar ddau gwmni sy'n hyrwyddo datblygiadau addysgiadol i blant a phobl ifanc. Fe yw un o Ymddiriedolwyr Sefydliol Addysg Ryngwladol Cymru, sef elusen sy'n hyrwyddo'r arfer o gyfnewid arferion addysgol gorau rhwng Cymru a gwledydd eraill. Mae Mike hefyd yn Gynghorydd ar gyfer Sgeti.

Andrew Donald (Hyd at Fai 2022)

Mae Andrew yn gweithio Centrica plc, cwmni dosbarthu ynni. Mae ganddo ddealltwriaeth helaeth o'r Sectorau Cyhoeddus a Phreifat ac mae e'n angerddol am Gyllid, Chwaraeon, Addysg ac Ynni Adnewyddadwy. Yn y gorffennol, mae e wedi gweithio mewn swyddi sy'n ymwneud â Thelathrebu, TG, Chwaraeon Proffesiynol a Gweithgynhyrchu, felly mi fydd e'n cynnig ystod eang iawn o brofiad i'r bwrdd.

Meirion Howells (Hyd at Fehefin 2024) Cadeirydd

Mae Meirion yn un o gymrodwr y Sefydliad Siartredig Adeiladu. Mae ganddo brofiad ym maes adeiladu yn gweithio fel Syrfëwr Meintiau ac mae e'n gyfarwyddwr ar gwmni adeiladu mawr. Yn 1994 fe sefydlodd Ymgynhoriaeth Rheoli Busnes. Mae e bellach yn treulio ei amser yn helpu prosiectau lleol ar sail pro bono.

Mark Jones

Mark yw Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol Coleg Gŵyr Abertawe. Cyn dychwelyd i Abertawe, roedd Mark yn Bennaeth ar Goleg Pen-y-bont ar Ogwr am 8 mlynedd. Mae Mark yn athro cymwysedig ac yn gyfrifydd siartredig cymwys, yn ogystal.

Michaela Leyshon (Hyd at Awst 2023)

Mae Michaela yn Gyfreithiwr Cyswllt gyda Phartneriaeth Smith Llewelyn ac yn Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe. Hi sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol a goruchwylio Clinig y Gyfraith. Mae hi'n un o Arolygwyr Lleyg Estyn ac mae hi wedi treulio amser yn y gorffennol yn gweithredu fel un o lywodraethwr Ysgol Gynradd Llwynderw, ac mi roedd hi'n arfer bod yn un o ymddiriedolwyr CISS (Gwasanaethau Gwybodaeth a Chefnogaeth Canser). Mae hi'n aelod o bwyllgor Cymdeithas y Gyfraith Abertawe a'r Cylch ac yn rhugl yn y Gymraeg.

Laimis Lisauskas (Hyd at Orffennaf 2021)

Pennaeth Cangen UCM

Y Parchedig Dr Adrian Morgan (Hyd at Fai 2023)

Mae Adrian yn ficer yng Nghasllwchwr ac yng Ngorseinion. Fe astudiodd y Gymraeg yn Aberystwyth a Diwinyddiaeth yn Peterhouse, Caergrawnt. Wrth gwblhau doethuriaeth a noddwyd gan AHRC, fe wnaeth e fwynhau ei amser yn dysgu yn y brifysgol.

Cynghorydd Sam Pritchard (Hyd nes i'r Cyngor newid ei henwebiad neu tan fis Mai 2024)

Mae Sam yn Gynghorydd Sir ar gyfer Abertawe a hi yw'r Aelod Cabinet cyfredol ar gyfer Gwasanaethau Plant. Yn ogystal, hi yw'r hyrwyddwr ar gyfer gofalywyr ifanc a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

Dr Jonathan Rance (Hyd at Awst 2024)

Treuliodd Jon ei yrfa yn rheoli cwmni uwch-dechnoleg, ac mi roedd yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno meddalwedd modelu mathemategol y cwmni i amrywiaeth eang o ddisgyblaethau peirianyddol. Ar ôl ymddeol o'i gwmni, mae Jon nawr yn helpu i redeg cwmni Petroffiseg ac fe yw Cadeirydd clwb rhwyfo Abertawe.

Ray Singh CBE (Hyd at Fehefin 2022)

Mae Ray Singh CBE yn Fargyfreithiwr ac mae ef wedi treulio 20 mlynedd yn gweithio fel Barnwr (rhan-amser ac amser llawn). Ray yw Is-gadeirydd Gwalia CYF, ac mae e'n Aelod Annibynnol o Wasanaeth Canser Felindre, yn aelod o Wasanaeth Gwaed Cymru ac yn un o Ymddiriedolwyr y GIG. Yn ogystal, fe yw Llywydd Rhwydwaith Canolfannau Cyswllt Plant Cymru, Cadeirydd Canolfannau Cyswllt Plant Aberdâr a Merthyr Tudful, ac mae e'n Ymddiriedolwr/Aelod o Fwrdd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt Plant Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n Gyfryngwr hyfforddedig mewn Materion Teulu a Phlant, yn un o gyn-lywodraethwr Prifysgol Fetropolitan Abertawe, yn gyn-gomisiynydd CRE ar gyfer y DU a Chymru, ac yn olaf, Ray yw Cadeirydd Race Council Cymru.

Yr Athro Catrin Thomas (Hyd at Awst 2024)

Yn ei rôl fel Dirprwy Is-ganghellor (Academaidd) Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant, mae'r Athro Catrin Thomas yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth academaidd strategol a gweithredol ar draws y Brifysgol. Ar ôl ennill gradd mewn Mathemateg o Brifysgol Caerwysg a PhD o Brifysgol Abertawe mewn mecaneg hylifol, fe ymunodd â'r Brifysgol yn 1989 fel Uwch Ddarlithydd mewn Mathemateg. Ers hynny, mae hi wedi gweithio mewn sawl rôl uwch megis Pennaeth Adran, Cofrestrydd Academaidd a Dirprwy Is-ganghellor (Academaidd). Fe chwaraeodd rhan flaenllaw yng nghais llwyddiannus Coleg y Drindod Caerfyrddin i ennill Pwerau Addysgu a Dyfarnu Gradd yn 2009, ac wedi hynny mae wedi arwain ar y broses o integreiddio academaidd mewn sawl achos o 'uno sefydliadol'. Bu'n adolygydd i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysgu Uwch (QAA) ac yn gadeirydd Gweithgor yr QAA ar ddatblygu Canllawiau i Ddarparwyr Addysg Uwch ar gyfer Ymarfer Effeithiol wrth Arholi ac Asesu mewn Iaith heblaw am Saesneg. Mae ei gwaith yn cynnwys darparu arweinyddiaeth wrth ddatblygu, cyflwyno, monitro ac adolygu fframwaith rheoleiddio academaidd a systemau sicrhau ansawdd y Brifysgol, ynghyd â goruchwylio partneriaethau cydweithredol y Brifysgol.

Denise Thomas (Hyd at Fehefin 2022)

Llywodraethwr Staff Addysgu

Cynghorydd Desmond Thomas (Hyd nes i'r Cyngor newid ei henwebiad neu tan fis Mai 2024)

Cafodd Des ei fagu yn nwyrain Abertawe ac fe gwblhaodd prentisiaeth Peirianeg gyda ICI ar ôl gadael yr ysgol. Fe weithiodd yn y diwydiant cyn symud ymlaen i weithio yn y sector ymchwil gyda Phrifysgol Abertawe am dros 30 mlynedd. Mae Des wedi bod yn Gynghorydd am dros 40 o flynyddoedd ac, ar hyn o bryd, fe yw'r Aelod Llywyddol. Mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad o fod yn Ynad yn Abertawe. Fe yw un o Lywodraethwyr Ysgol Gynradd Whitestone ac Ysgol Gynradd Llwynderw. Yn ogystal â hyn, mae Des yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Pam Walters (Hyd at Fai 2023) (Is-gadeirydd)

Mae Pam wedi casglu ystod eang o brofiad yn ystod ei gyrfa, wrth iddi weithio yn y sector addysg am 25 o flynyddoedd. Mae hi wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau strategol a gweithredol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddatblygiad busnes, arallgyfeirio incwm, gweithio mewn partneriaethau a gweithio'n gydweithredol i gynllunio cwricwla. Mae hi wedi bod yn rhan o ddatblygiadau rhyngwladol a rhanbarthol ac wedi cyfrannu at ddatblygiad Strategaeth Llwybrau Dysgu 14-19 a'r Strategaeth Menter Ieuenctid ac Entrepreneuriaeth. Mae Pam yn angerddol am AB, gwella rhagolygon bywyd pob dysgwr a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau'r economi.

Gary Williams (Hyd at Fai 2021)

Mae Gary yn un o raddedigion y system AB ar ôl iddo adael yr ysgol yn 16 oed. Yn dilyn astudiaethau llwyddiannus mewn rheoli gwestai ac arlwyio ynghyd â gyrfa yn y sector Rheoli Gwesty, fe aeth i weithio yn y sector AB fel darlithydd. Wrth symud drwy'r rhengoedd gyrfaol addysgiadol, fe dderbyniodd swydd fel Prif Weithredwr Coleg Newark a Sherwood a Choleg Weston. Yn y swydd yma fe ddaeth dawn Gary i arwain a rheoli i'r amlwg, wrth i'r colegau basio dyfarniadau arolygiadau annibynnol. Yn 2000, fe wnaeth Gary ymuno â thîm sefydlu ar gyfer sefydlu Cyngor Dysgu a Sgiliau, ac fel Cyfarwyddwr Gweithredol *Wiltshire and Swindon*, roedd e'n gyfrifol am gyllido a chynllunio addysg ôl-16 ledled y sir. Yn 2002, ymunodd Gary â *Tribal Group* i arwain eu hadran gwasanaethau AB, gan ddarparu cymorth ar arweinyddiaeth a rheoli strategol i golegau a phrifysgolion yn y DU a Seland Newydd. Mae Gary wedi bod yn aelod o Fwrdd CGA ers 2010.

Susan Williams (Hyd at Fedi 2024)

Er ei bod bellach wedi ymddeol, bu Susan yn gweithio fel Gweithiwr Cymdeithasol ac yn ddiweddarach fel Rheolwr Tîm Cymdeithasol i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Abertawe. Gweithiodd fel Gweithiwr Cymdeithasol Iechyd Meddwl am ugain mlynedd, a bu'n gweithio hefyd fel Rheolwr Arweiniol ar gyfer Diogelu Ymchwiliadau am flynyddoedd. Roedd ei gwaith proffesiynol yn cynnwys dyletswyddau rhyngasiantaethol ac amlddisgyblaethol; hefyd, fe wnaeth rheoli gwaith tîm cymdeithasol prysur amlygu a datblygu ei sgiliau rhyngpersonol, goruchwyllo a thrafod. Daw â degawdau o brofiad i'r Bwrdd ar ôl gweithio i'r Llywodraeth Leol. Y tu allan i'r gwaith, hi yw Trysorydd Pwyllgor Rheoli Neuadd Llangenydd.

Dr Sarah Weir (tan archwiliad 2024)

Mae Sarah wedi ymddeol ar ôl gweithio i'r Llywodraeth Leol, lle cafodd yrfa llwyddiannus am 16 mlynedd yn gweithio fel Rheolwr Prosiect Strategol. Roedd gofyn iddi gyflwyno prosiectau addysgol cyfalaf mawr fel rhan o'r Rhaglen Ansawdd mewn Addysg. Cyn iddi weithio i ELWA fel Rheolwr Addysg (am 9 mlynedd), bu'n rheoli prosiectau ymchwil a datblygu ar y cyd gyda Gyrfa Cymru, darparwyr hyfforddiant, Colegau AB yn ogystal â Phrifysgol Aberystwyth. Mae hi'n gefnogwr brwd o addysgu pellach a thestun ymchwil ei hastudiaeth PhD oedd buddion ehangach dysgu mewn cymunedau.

2 Myfyriwr. Bydd un o'r rhain yn Llywydd etholedig Cangen UCM y Coleg (Hyd at Fehefin 2021)